



DARLLENWCH
Luc 24: 50-53 ac
Actau 1: 4-12



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 1:11

Gofynnwch am
help i chwilio
am yr adnod hon.

Stori 4 Iesu'n gadael ac yn dod yn ôl

Os ydych chi wedi symud tŷ neu newid ysgol erioed, byddwch chi'n gwybod sut beth yw ffarwelio â ffrindiau. Meddyliwch pe baech yn symud yn bell i ffwrdd ac na fydech yn gweld eich ffrindiau byth eto! Mae'n siwr mai dyma sut roedd y disgyblion yn teimlo pan aeth Iesu i ffwrdd. Ar ôl iddo atgyfodi, roedd y disgyblion wedi cael amser da iawn gyda Iesu. Roedden nhw'n deall pam yr oedd wedi marw yn awr. Roedd dros chwe wythnos ers i Iesu atgyfodi. Aeth â'r un ar ddeg disgybl i fryn o'r enw Mynydd yr Olewydd. Esboniodd fod yr amser wedi dod iddo fynd yn ôl i'r Nefoedd. Fydden nhw ddim yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain achos byddai'r Ysbryd Glân yn cael ei anfon i'w helpu.

C Ysgrifennwch enw'r bryn.

M _ _ _ _ _ yr O _ _ _ _ _ .

2

C Tynnwch lun Iesu a'r nifer iawn o ddisgyblion yn sefyll ar y mynydd. (Mae dau ohonyn nhw yno'n barod).



6

C Pwy fyddai'n cael ei anfon i helpu'r disgyblion?

Yr Y _ _ _ _ _ G _ _ _ _ _ .

2

Pan oedd Iesu'n siarad â'i ddisgyblion, cafodd ei godi oddi ar y ddaear. Yna, roedd cwmwl yn ei guddio oddi wrthyn nhw. Roedd y disgyblion yn sefyll ac yn edrych i'r awyr.

Daeth dau angel atyn nhw. "Gofynnodd yr angen "Pam rydych chi'n sefyll yn edrych tua'r nef? Bydd Iesu'n dod yn ôl eto."

C Beth oedd yn cuddio Iesu o olwg y disgyblion?
Tynnwch linell o dan yr ateb cywir.

2

yr haul / cwmwl / tywyllwch



Aeth y disgyblion yn ôl i Jerwsalem i aros fel yr oedd Iesu wedi gofyn iddyn nhw'i wneud.

Un diwrnod, bydd Iesu'n dod yn ôl! Dydyn ni ddim yn gwybod pryd fydd hyn ond mae Duw yn siwr o gadw'i addewid.



C Pryd bydd Iesu'n dod yn ôl? Tynnwch linell o dan yr ateb cywir.

2

Ymhen dwy flynedd / yfory / dydyn ni ddim yn gwybod /
ymhen deng mlynedd

Y peth pwysig yw ein bod yn barod pan ddaw. Byddwn ni'n barod i gwrdd â Iesu os yw ein pechodau wedi cael eu maddau a ninnau'n ymddiried ynddo.

C Rhowch groes trwy'r holl lythrennau X a Z i weld beth yw'r geiriau sydd ar ôl.

6

X B X Y D D X I Z E S X U X Y N X D Z O D Z Y N X O Z L

— — — — —
— — — — —

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn